WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Chwefror 2012
www.wao.gov.uk

Dogfen Ymgynghori
Strategaeth Gontractio ac Archwiliadau o Gynghorau Tref a Chymuned

Rhagair

Yn y papur ymgynghori hwn, amlinellaf gynigion ar gyfer fy Strategaeth Gontractio nesaf ac, yn rhan tri, ystyriaf drefniadau ar gyfer yr archwiliadau o gynghorau tref a chymuned. Byddwn yn croesawu eich sylwadau yn fawr iawn.

Mae fy Strategaeth Gontractio yn berthnasol i chi gan mai fi, a'r archwilwyr a benodir gennyf mewn llywodraeth leol, yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru gan archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru. Mae gennyf swyddogaeth i asesu cydymffurfiaeth cyrff llywodraeth leol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a llunio barn ar y tebygolrwydd y byddant yn gwella a'u gallu i wella. Mae gennyf bwerau a dyletswyddau hefyd i archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel gwerth am arian) cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wrth ddefnyddio eu hadnoddau; a gwneud argymhellion i wella gwerth am arian. Ar hyn o bryd, mae fy staff yn Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni tua dwy ran o dair o'r gwaith archwilio blynyddol, ac mae cwmnïau cyfrifyddu o'r sector preifat yn gwneud tua thraean o dan gontractau a osodwyd gyntaf yn 2007 ac y disgwylir iddynt ddod i ben yn 2014.

Rhaid i'r gwasanaethau a gaffaelir gennyf a'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu fod yn briodol yng nghyd-destun Cymru. Mae sector cyhoeddus Cymru a'r gofynion ar archwilwyr wedi newid yn sylweddol ers i'r contractau cyfredol gael eu trefnu. Mae angen i'm hymarfer caffael nesaf ymateb yn briodol i gyfyngiadau ariannol parhaus, disgwyliadau uchel ymhlith y cyhoedd o ran gwasanaethau a newidiadau ym mhatrymau'r gwasanaethau a ddarperir. Fel pawb yn y sector cyhoeddus, rwyf yn gweithio yng nghyd-destun pwysau difrifol o safbwynt ariannol ac o safbwynt gwasanaethau a newidiadau cyflym. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau yn Lloegr o ran sut y caiff gwaith archwilio cyhoeddus ei gyflawni. Byddaf yn cadw llygad manwl ar effaith y newidiadau hynny ar annibyniaeth, atebolrwydd, cost ac ansawdd gwaith archwilio wrth iddynt gael eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf.

Mae gwaith archwilio allanol yn elfen hanfodol o atebolrwydd cyhoeddus ac mae'n hollbwysig ei fod yn annibynnol. Rwyf yn ymrwymedig i waith archwilio sy'n graff ac yn cefnogi gwelliant yn ogystal â chynnig her adeiladol fel y gellir dwyn llywodraeth i gyfrif. Byddaf yn parhau i weithio gydag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill y DU i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus, rhoi ffocws strategol ar faterion sy'n berthnasol i'n gwaith a datblygu dulliau gweddol gyson o wneud gwaith archwilio cyhoeddus. A byddaf yn parhau i weithio i safon uchel ac mewn ffordd gyson ledled Cymru gan ddarparu gwerth am arian i bobl Cymru. Gyd gilydd, mae fy *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2010-11,* fy *Amcangyfrif Ategol ar gyfer 2011-12* a fy *Amcangyfrif ar gyfer 2012-13* yn dangos lleihad cyffredinol sylweddol yn lefel yr adnoddau a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ar sail gronnol rhwng 2009-10 a 2012-13, byddaf wedi llywio lleihad o bron 25 y cant mewn termau real yng nghyfanswm ein gwariant blynyddol.

Mae'r holl ffactorau hyn yn golygu ei bod yn amserol i mi ymgynghori â chi ar opsiynau ar gyfer fy Strategaeth Gontractio nesaf. Mae fy *Nghod Ymarfer Archwilio* yn dangos *sut* y dylwn i a'r archwilwyr a benodir gennyf gyflawni ein priod swyddogaethau archwilio. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried *pwy* ddylai gyflawni'r gwaith hwnnw. Tra fy mod yn cydnabod fy rôl statudol i gyflawni archwiliadau a phenodi archwilwyr, mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn ymchwilio i ba raddau y gall cynrychiolwyr cyrff a archwilir gyfrannu i'm penderfyniadau caffael.

Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar fy nghynigion, erbyn dydd Gwener 13 Ebrill 2012. Mae ffurflen ymateb ar dudalen 22 ac ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk/cymraeg/reportsandpublications/249.asp.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
20 Chwefror 2012

Cynnwys

Rhagair

Crynodeb 4

Rhan 1 - Trefniadau presennol 6

Fy ngwaith fel Archwilydd Cyffredinol Cymru 6

Y rhai sy'n helpu i wneud fy ngwaith 6

Fy strategaeth gontractio bresennol 7

Amserlen fy ymarfer caffael nesaf 8

Rhan 2 - Opsiynau ar gyfer newid 9

Y cyd-destun y mae angen i'm strategaeth gontractio weithio ynddo 9

Galwadau ar gyrff a archwilir ac archwilwyr yng Nghymru yn y dyfodol 9

Egwyddorion archwilio cyhoeddus 11

Materion ymarferol 11

Meysydd y byddwn yn croesawu sylwadau arnynt yn benodol 14

Rhan 3 - Trefniadau newydd posibl ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned 19

Trefniadau presennol 19

Cynigion ar gyfer dull newydd o weithredu yng Nghymru 21

Rhan 4 - Cwestiynau i randdeiliaid 22

Ffurflen ymateb 23

Cyhoeddi ymatebion - cyfrinachedd a diogelu data 24

Atodiad 1 - Fy ngwaith fel Archwilydd Cyffredinol 25

Crynodeb

1 Ar hyn o bryd, mae fy staff, yn Swyddfa Archwilio Cymru, yn cyflawni tua dwy ran o dair o'r gwaith archwilio y gall cwmnïau eraill gynnig amdano. Yn achos y gwaith hwnnw y gall cwmnïau eraill gynnig amdano, gallaf ddewis rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac o leiaf ddau gwmni i ddarparu gwasanaethau archwilio unrhyw le yng Nghymru. Cwmnïau cyfrifyddu sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r traean arall o waith y gall cwmnïau eraill gynnig amdano. Rwyf yn prynu tua £3.4 miliwn o wasanaethau proffesiynol bob blwyddyn, a hynny'n bennaf o dan gontractau gwasanaethau archwilio a fydd yn dod i ben yn 2014. Yn ogystal â sicrhau y gall cwmnïau eraill gynnig am archwiliadau unigol, lluniwyd fy strategaeth gontractio bresennol i ddarparu gwasanaeth o safon uchel am gost isel a reoleiddir.

2 Hoffwn adnewyddu fy strategaeth gontractio cyn dechrau fy ymarfer caffael newydd. Bydd angen i'r contractau a osodaf ddarparu gwaith archwilio llwyddiannus, yn ogystal ag ystyried pwysau yn y dyfodol ar gyrff a archwilir ac archwilwyr a newidiadau i'r farchnad archwilio gyffredinol. Byddaf yn canolbwyntio ar anghenion Cymru, cystadleuaeth, cynnal cydbwysedd priodol rhwng ansawdd a phris, gwaith partneriaeth a chynaliadwyedd. Bwriadaf gadw costau mor isel â phosibl drwy hyrwyddo marchnad gystadleuol ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig a defnyddio trefniadau caffael mwy hyblyg. Drwy wneud hynny, byddaf yn sicrhau mwy o dryloywder ynghylch sut y caiff cyflenwyr eu dewis. Dymunaf hefyd gyflwyno trefniadau cadarnach, sydd eto i gyd yn fforddiadwy, i archwilio cynghorau tref.

I wneud hyn ystyriaf y canlynol:

- cydbwysedd y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyflenwyr eraill, gan gynnwys sicrhau bod mwy o waith iechyd a llywodraeth ganolog ar gael i gwmnïau eraill gynnig amdano;
- hyd a lled y cyflenwad, drwy ddefnyddio cyflenwyr newydd ac ychwanegol (gan gynnwys rhai yng Nghymru) a gwella'r sylfaen sgiliau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad drwy ehangu ei sylfaen gyflenwi y tu hwnt i'r cwmnïau cyfrifyddu yn unig;
- ymestyn trefniadau prynu i gynnwys cytundebau fframwaith a thendrau penodol achlysurol yn ogystal â chontractau gwasanaethau archwilio craidd newydd; a
- chynnwys cynrychiolwyr cyrff a archwilir wrth ddewis fy narpar gyflenwyr, gan ddiogelu fy annibyniaeth ar yr un pryd.

Byddaf yn parhau i ystyried y materion hyn y tu hwnt i gyfnod yr ymgynghoriad hwn yng ngoleuni unrhyw ddatblygiadau a ddaw yn sgîl Bil Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Ni chollir cryfderau'r trefniadau presennol, fodd bynnag. Byddaf yn cadw'r egwyddor o benodi archwilwyr annibynnol; annibyniaeth archwilwyr ar y sefydliadau a archwilir ganddynt; fy ngwaith i reoleiddio ansawdd a chost gwaith archwilwyr; a'r egwyddor o 'ddull prisio Swyddfa'r Post' sy'n golygu y dylid defnyddio'r un graddfeydd ffioedd i godi tâl am waith tebyg ledled Cymru, ni waeth beth fo pellter lleoliad yr archwiliad.

4 Bwriadaf ddefnyddio ffynonellau cyflenwi ychwanegol a newydd drwy ymestyn fy nhrefniadau prynu. Byddaf yn parhau i ddefnyddio contractau tebyg i'r rhai sydd gennyf ar hyn o bryd â chwmnïau er mwyn rhoi sicrwydd y cânt swm digonol o waith dros gyfnod penodedig er mwyn annog contractwyr i fuddsoddi yn eu seilwaith proffesiynol a gwneud cymorth technegol arbenigol yn hyfyw yn ariannol. Fodd bynnag, nid contractau o'r fath fydd fy unig ddull caffael. Byddaf hefyd yn ystyried cytundebau fframwaith newydd i brynu gwaith prosiect penodol, a defnyddio staff asiantaeth ac arbenigwyr. Hoffwn hefyd weld mwy o staff yn cael eu secondio i Swyddfa Archwilio Cymru a chanddi. Yn ogystal â hyn, o bryd i'w gilydd, byddaf hefyd yn cynnal tendrau penodol achlysurol, neu ymarferion caffael bach, ac yn defnyddio trefniadau eraill sydd eisoes ar waith yn y sector cyhoeddus, lle bo hynny'n briodol, i brynu darnau penodol o waith, neu sicrhau sgiliau penodol.

5 Felly bydd fy nhrefniadau prynu cyffredinol yn cynnwys tri maes cyffredinol, fel yr eglurir yn fanylach ym mharagraffau 2.57 a 2.58.

Ffigur 1: Crynodeb o'r trefniadau prynu arfaethedig



6 I'm helpu i lunio fy ymarfer caffael, byddwn yn croesawu eich sylwadau ar y tri chwestiwn allweddol a nodir ar y ffurflen ymateb ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn:

- Beth yw eich barn ar fy nghynigion i sefydlu marchnad fwy cystadleuol ac agored i gyflenwi gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig, a ategir gan drefniadau caffael mwy hyblyg?
- A yw'n ddymunol bod cynrychiolwyr cyrff a archwilir yn chwarae mwy o ran yn y prosesau caffael?
- A ydych o'r farn bod fy nghynigion yn debygol o gefnogi trefniadau cadarnach, sydd eto i gyd yn fforddiadwy, ar gyfer cynghorau tref a chymuned?

Rhan 1 - Trefniadau presennol

Fy ngwaith fel Archwilydd Cyffredinol Cymru

1.7 Ceir crynodeb o'm dyletswyddau a'm pwerau o ran archwilio sector cyhoeddus Cymru yn Atodiad 1.

1.8 Bob blwyddyn, mae'r staff a gaiff eu cyflogi gennyf a'r archwilwyr a gaiff eu contractio gennyf yn cyflawni rhaglen eang ac amrywiol o waith archwilio allanol. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, asesiadau llywodraeth leol, ardystio hawliadau grant ac ymarferion gwrth-dwyll. Rydym yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £14 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru'n trosglwyddo elfennau o'r arian hwn i'r GIG (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (bron £4 biliwn). Amlinellir y gwaith archwilio a gyflawnwyd yn 2010-11 yn fy adroddiad blynyddol a chyfrifon sy'n tynnu sylw at enghreifftiau o'r effaith a gaiff y gwaith hwn. Yn 2010-11, cyhoeddwyd adroddiadau gennym ar gyfrifon tua 840 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae dros 700 o'r cyrff hyn yn 'gyrff bach', ac yn gynghorau tref a chymuned yn bennaf.

1.9 Caiff gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu gan amrywiaeth o ffynonellau, a daw'n bennaf o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru yn dilyn cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Ceir crynodeb o incwm 2010-11 fel a ganlyn.

Ffigur 2: Dadansoddiad o incwm Swyddfa Archwilio Cymru

Incwm ac ariannu		£ (miloedd)
Ffioedd archwilio ac arolygu	Llywodraeth leol Y GIG Llywodraeth ganolog	£13,391 £4,181 £1,604
Adnoddau o Gronfa Gyfunol Cymru		£5,047
Incwm arall		£258
CYFANSWM		**£24,481**

Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2010-11 Swyddfa Archwilio Cymru

Y rhai sy'n helpu i wneud fy ngwaith

1.10 Rwyf yn cyflogi staff ac unigolion cyswllt ac yn prynu gwasanaethau proffesiynol gan gwmnïau. Caiff y rhan fwyaf o'r gwaith ei wneud gan fy staff - Swyddfa Archwilio Cymru. Ar ddiwedd blwyddyn 2010-11, roeddwn yn cyflogi 253 aelod o staff yn uniongyrchol (222 cyfwerth ag amser cyflawn).

1.11 Prynir gwasanaethau proffesiynol o dan y ddwy gyfres o gontractau gwasanaethau archwilio sydd gennyf, un ar gyfer y prif gyrff a archwilir ac un ar gyfer cyrff bach a archwilir. Dechreuodd y contractau hyn yn 2007 a byddant yn dod i ben yn 2014. Darperir rhai ystadegau perthnasol am y gwaith rwyf yn ei osod ar gontract yn y paragraff nesaf.

1.12 Yn achos archwiliadau o gyrff mawr, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â thua 73 y cant o'r gwaith (yn ôl niferoedd yr archwiliadau a gwerth y ffioedd) ac mae cwmnïau'n ymgymryd â thua 27 y cant. Cwmnïau sy'n cyflawni'r holl archwiliadau o gynghorau tref a chymuned. O ran y math o waith archwilio, caiff tua 31 y cant o waith archwilio ariannol ac 13 y cant o waith archwilio perfformiad (yn ôl yr amser a fuddsoddir) ei roi ar gontract allanol. Rwyf yng nghanol sbectrwm sefydliadau archwilio eraill y DU o ran cyfran y gwaith rwyf yn ei osod ar gontract allanol: o'r wybodaeth a gyhoeddwyd, mae cyfran y gwaith a roddir ar gontract allanol yn amrywio o 20 y cant i 48 y cant. Rwyf yn rhagori ar y targed o 25 y cant a argymhellir (ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) yn Adroddiad Sharman.

1.13 Mae pob un o asiantaethau archwilio'r DU yn defnyddio ffyrdd gwahanol o osod gwaith ar gontract allanol:

- Mae gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) gyfres o gontractau fframwaith â saith cwmni ar gyfer gwaith archwilio ariannol. Rhennir gweinyddiaethau yn lotiau penodol gyda dau neu dri o gwmnïau yn gweithio ym mhob un. Mae cwmnïau'n gweithio mewn timau cyfun a arweinir gan uwch staff NAO. Mae cytundeb fframwaith ar wahân mewn grym gyda saith 'partner gwerth am arian strategol' i ddarparu gwasanaethau proffesiynol (e.e. sgiliau ymchwil, ymgynghori a dadansoddi) i gefnogi ymchwiliadau gwerth am arian, gan weithio gyda staff NAO yn y rhan fwyaf o achosion.
- Mae gan Audit Scotland gontractau fframwaith gydag wyth cwmni. Rhennir cyrff a archwilir yn bump 'lot' gwahanol gyda rhwng dau a chwe darparwr yn gweithio ynddynt fel arfer. Ymhlith yr archwiliadau a gaiff eu gosod ar gontractau allanol, mae cyfran uchel o archwiliadau colegau a fyddai, pe baent yn cael eu heithrio, yn rhoi canran yn ôl nifer o tua 39 y cant.
- Mae Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon yn contractio gydag wyth cwmni ar gyfer gwaith archwilio ariannol a/neu staff archwilio dros dro. Mae'n defnyddio dau gwmni ar gyfer astudiaethau gwerth am arian.
- Mae gan y Comisiwn Archwilio gontractau fframwaith â phum cwmni mawr ar gyfer prif gyrff llywodraeth leol a phrif gyrff y GIG; a phedwar cwmni arall ar gyfer cynghorau plwyf. Mae ganddo gytundeb fframwaith â dau gwmni i gyflenwi staff iddo ar adegau prysur. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Archwilio yn cychwyn cylch contractio newydd fel rhan o'r broses sy'n arwain at ei ddiddymiad arfaethedig pan gaiff pob darn o waith ei osod ar gontract allanol.

Fy strategaeth gontractio bresennol

1.14 Lluniwyd fy Strategaeth Gontractio bresennol yn 2006, ac mae'n darparu ar gyfer y canlynol:

- marchnad gyflenwi gymysg, gan anelu at sicrhau cyfundrefn archwilio cost isel o safon uchel;
- ymgysylltiad â digon o gwmnïau cyfrifyddu er mwyn sicrhau y gall gwahanol gwmnïau gynnig am waith (h.y. y gallu i ddewis o blith Swyddfa Archwilio Cymru ac o leiaf ddau gwmni) o ran darparu gwasanaethau archwilio unrhyw le yng Nghymru;
- prynu gwasanaethau arbenigol fel y bo'n briodol, yn hytrach na chreu marchnad gymysg ar gyfer gwasanaethau arolygu; a
- chwantwm gwaith o rhwng £3 miliwn a £5 miliwn i'w roi ar gontract allanol bob blwyddyn, gan roi hyblygrwydd i ymestyn neu leihau'r cwantwm hwnnw yn dibynnu ar y gwerth am arian sydd ar gael.

1.15 Fodd bynnag yn 2009, pan ad-drefnwyd y GIG yng Nghymru, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd oruchwylio'r newid sylweddol hwnnw ei hun ac felly trefnodd i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliadau o'r holl fyrddau iechyd lleol newydd. Ni neilltuodd waith arall o fewn y GIG yn lle'r gwaith a gollodd y cwmnïau ar ôl i'r cyrff a neilltuwyd iddynt yn flaenorol gael eu diddymu.

1.16 Rwyf wedi parhau â threfniant 'Archwilydd Penodedig Unigol' ym maes llywodraeth leol. O dan y trefniant hwn mae timau sy'n cynnal archwiliadau ariannol, boed o Swyddfa Archwilio Cymru neu gwmni, yn gweithio i Archwilydd Penodedig unigol, sy'n uwch aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r trefniant yn hyrwyddo cysondeb a pharhad o ran dyfarniadau archwilio.

Y polisi cyfredol ar gylchdroi archwilwyr

1.17 Mae safonau proffesiynol a moesegol yn pwysleisio'r risgiau i annibyniaeth archwilwyr os byddant yn meithrin perthynas hirsefydlog â chorff a archwilir. Mae'n bolisi gennyf ystyried annibyniaeth ar ddechrau bob blwyddyn. Mae'n fwyfwy tebygol y caiff archwilwyr eu cylchdroi ar ôl gwneud y gwaith am bum mlynedd. Deg mlynedd yw'r cyfnod ymgysylltu hwyaf posibl.

Amserlen fy ymarfer caffael nesaf

1.18 Rwyf yn ymgynghori ar y cam cynnar hwn er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio fy nghyfresi nesaf o gontractau. Mae fy amserlen fel a ganlyn.

Ffigur 3: Amserlen caffael

	Gweddill 2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Contractau presennol				
Ymgynghori ar y strategaeth arfaethedig				
Gweithredu'r strategaeth newydd a lansio'r ymarfer (ymarferion) caffael nesaf				
Cwblhau'r ymarfer (ymarferion) caffael a threfnu penodiadau newydd				
Y flwyddyn gyntaf o weithredu o dan y contractau newydd				

Rhan 2 - Opsiynau ar gyfer newid

Y cyd-destun y mae angen i'm strategaeth gontractio weithio ynddo

2.19 Mae angen ystyried pa rannau o'm strategaeth gontractio y dylid eu cadw neu eu newid yng nghyd-destun yr hinsawdd debygol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a'r disgwyliadau dilynol ar gyfer gwaith archwilwyr. Mae'r cyd-destun hwnnw yn newid yn gyflym ac yn ansicr, ond mae'r farchnad archwilio debygol a'r pwysau economaidd ar gyrff a gwasanaethau cyhoeddus, a'r gofynion proffesiynol a chyfreithiol ar archwilwyr - gan gynnwys Bil drafft Swyddfa Archwilio Cymru - i gyd yn ffactorau pwysig. Bydd angen i'm dull contractio ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i drefniadau sy'n deillio o'r Bil hwnnw.

Galwadau ar gyrff a archwilir ac archwilwyr yng Nghymru yn y dyfodol

2.20 Mae sector cyhoeddus Cymru wedi newid yn sylweddol ers yr ymarfer caffael diwethaf. Ad-drefnwyd y GIG yn nifer lai o gyrff mwy o faint. Unwyd y gwasanaethau prawf o dan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Mewn llywodraeth leol, cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 asesiadau gwella mwy safonedig gan roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion; ac mae diwygiadau i wasanaeth yr heddlu yn yr arfaeth. Rhaid i'm hymarfer caffael ymateb yn effeithiol i bwysau a materion newydd. Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, mae'r rhain yn cynnwys:

- yr hinsawdd economaidd o bwysau ariannol sy'n deillio o ddiffygion cyllidol hirdymor; yr angen i leihau dyled pan nad oes fawr ddim twf economaidd, os o gwbl; a'r anawsterau sydd ynghlwm wrth gynyddu trethi ymhellach;
- disgwyliadau uwch o ran gwerth i ddinasyddion, o gofio'r galw cynyddol ymhlith dinasyddion a'r lefel is o adnoddau sydd ar gael i'w cyflawni;
- newidiadau ym mhatrwm y gwasanaethau a ddarperir a materion o ran cydweithredu;
- ffocws cryfach ar 'ganlyniadau' a'r angen i 'gyflawni mwy ond gyda llai' a fydd yn arwain at bwyslais amlwg ar dechnegau busnes newydd, arloesedd ac effeithlonrwydd;
- gwasanaethau cyhoeddus mwy agored a mwy masnachol eu natur, gydag amrywiaeth eang o gyflenwyr;
- dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus;
- datblygu cynaliadwy (yn enwedig materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, rheoli gwastraff, y cyflenwad ynni a chostau ynni); a
- mwy o ddarpariaeth ddigidol a mynd i'r afael â'r bwlch digidol.

2.21 Yng nghyd-destun Cymru yn benodol, mae'r materion yn cynnwys:

- pwerau deddfu newydd ac estyniadau pellach o ran datganoli ac ariannu;
- dymuniad Llywodraeth Cymru am wasanaeth cyhoeddus newydd ac unigryw i Gymru;

- modelau gwasanaeth newydd ar gyfer meysydd â blaenoriaeth fel plant a theuluoedd ag anghenion cymhleth; cymorth i bobl fyw'n dda ac yn annibynnol; a diogelu'r cyhoedd;
- penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau y mae'n well eu darparu'n lleol, neu drwy gydweithredu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol;
- ymsefydlu ar ôl y camau i ad-drefnu'r GIG, sydd wedi creu mwy o wahaniaethau o gymharu â'r gwasanaeth yn Lloegr; a'r
- angen am ddatblygiad economaidd; sgiliau a chyrhaeddiad addysgol gwell a mwy o gartrefi o safon uwch.

2.22 Bydd pob un o'r materion hyn yn arwain at newidiadau yn y disgwyliadau o ran gwaith archwilwyr. Disgwyliaf weld y canlynol:

- ffocws gwaith rheoleiddio yn newid i werth cyhoeddus ac effeithlonrwydd - gan barhau â'r angen am waith gwerthuso perfformiad cadarn;
- archwilio ar draws ffiniau a gwasanaethau a rennir yn hytrach nag ar sail sectorau traddodiadol - sy'n golygu y bydd dilyn y bunt gyhoeddus ac atebolrwydd yn fwy cymhleth;
- ymgysylltu'n rhagweithiol â materion sy'n dod i'r amlwg (i gael dealltwriaeth ohonynt a gwella) yn hytrach na gwneud gwaith archwilio ôl-weithredol (sicrwydd) yn unig - bydd hyn yn sicrhau bod gwaith archwilio yn fwy cyfredol; a
- ffocws manylach ar lywodraethu cadarn a rheoli risg a gwella tryloywder ac atebolrwydd.

2.23 Yn erbyn y cyd-destun hwn, trafodaf yn awr y trefniadau rwyf yn cynnig y dylid eu cadw neu'u newid.

Newidiadau i'r farchnad archwilio gyffredinol

2.24 Mae'n ansicr sut y bydd y farchnad archwilio newydd ar gyfer y sector cyhoeddus yn datblygu yn Lloegr ond ni waeth beth fydd yn digwydd yn Lloegr, mae'n debygol y bydd iddo oblygiadau ar gyfer y farchnad yng Nghymru. Byddaf yn cadw llygad manwl a gofalus ar effaith y newidiadau, yn enwedig o ran annibyniaeth, atebolrwydd, cost, cysondeb ac ansawdd gwaith archwilio.

2.25 Mae'n bosibl y caiff y farchnad archwilio yn gyffredinol ei diwygio hefyd. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliad y Comisiwn Cystadlu i'r farchnad gwasanaethau archwilio statudol a chyhoeddiad yr Undeb Ewropeaidd ar bolisi archwilio a'r rhwystrau i gystadleuaeth.

Materion cyfreithiol

2.26 Mae rhai agweddau ar sut rwyf yn trefnu bod gwaith archwilio yn cael ei gyflawni yn sector cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ac yn cwmpasu'r canlynol:

- beth mae'n rhaid i mi ac archwilwyr eraill ei wneud o dan ofynion deddfwriaethol cyfredol a newydd, yn enwedig:

  a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;

  b Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

  c deddfwriaeth ar gyfer cyrff unigol penodol a noddir gan Lywodraeth Cymru;

  d Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005; a

- sut mae'n ofynnol i mi fynd ati i gaffael gwasanaethau, fel y nodir o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, Cyfarwyddebau'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth).

  Rhaid i mi hefyd ystyried unrhyw ofynion newydd neu wahanol a gyflwynir mewn perthynas â Bil Swyddfa Archwilio Cymru sydd ar ddod.

2.27 Er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus mae arnaf angen archwilydd effeithiol pan fetho popeth arall, sydd, yn ymarferol, yn golygu Swyddfa Archwilio Cymru. I gyflawni'r rôl hon, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn ganolfan ragoriaeth a rhaid bod ei maint a'i gallu yn golygu y gall gyfeirio adnoddau unrhyw le yng Nghymru ar yr un pryd. Rwyf am iddi chwarae rhan ganolog yn yr ymgais i wella gwasanaethau cyhoeddus a bod yn bartner gwerthfawr i gyrff a archwilir. Er mwyn fy nghynorthwyo i a chyrff a archwilir, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru feddu ar wybodaeth gorfforaethol hefyd. Bydd sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i gyflawni swm sylweddol o waith archwilio yn golygu y gallaf ystyried prosesau archwilio a'r gwasanaethau a brynaf gan gyflenwyr eraill o safbwynt ymarferydd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu meincnod i mi o ran cost ac ansawdd ac yn fy helpu i hyrwyddo gwerthoedd pwysig o ran cynhyrchion.

2.28 Rwyf hefyd yn ymrwymedig i egwyddorion archwilio cyhoeddus.

Egwyddorion archwilio cyhoeddus

2.29 Mae gwaith archwilio cyhoeddus yn hanfodol er mwyn cael atebolrwydd effeithiol o ran gwasanaethau cyhoeddus, sy'n faes ar wahân. Mae Gweinidogion Cymru, aelodau etholedig, cyrff llywodraethu a rheolwyr gwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei drin gydag uniondeb a'i fod yn cynnig gwerth am arian. Mae angen safonau uchel o atebolrwydd yn benodol oherwydd:

- ceir elfen o orfodaeth o ran sut y caiff arian cyhoeddus ei godi, drwy drethi cenedlaethol a lleol fel arfer;
- dim ond at ddibenion bwriadedig ac awdurdodedig yn ôl y gyfraith y gellir defnyddio arian cyhoeddus;
- rhaid i'r rhai sy'n delio ag arian cyhoeddus allu dangos eu bod wedi gwneud hynny yn unol â'r safonau a ddisgwylir gan y cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig; a
- gall gwaith craffu annibynnol helpu i ysgogi gwelliant yn y gwasanaethau cyhoeddus hynny lle nad oes cystadleuaeth.

2.30 Rwyf yn cydnabod tair egwyddor sylfaenol sy'n sail i waith archwilio cyhoeddus, sydd wedi ennill eu plwyf:

- annibyniaeth archwilwyr sector cyhoeddus ar y sefydliadau a archwilir;
- cwmpas eang archwiliadau cyhoeddus, gan gynnwys datganiadau ariannol, rheoleidd-dra (neu gyfreithlondeb), priodoldeb (neu gywirdeb) a gwerth am arian; a
- gallu archwilwyr cyhoeddus i sicrhau bod canlyniadau eu harchwiliadau ar gael i'r cyhoedd, ac i gynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd.

2.31 Rwyf finnau - a Swyddfa Archwilio Cymru - yn bwriadu ymrwymo i bedwaredd egwyddor hefyd, sef:

- rhaid i archwilwyr cyhoeddus ddangos y safonau uchaf posibl o ran llywodraethu, perfformiad ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Materion ymarferol

Penodiadau i gyrff llywodraeth leol a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol

2.32 Penodiadau annibynnol yw un o'r prif gamau y gellir eu cymryd i ddiogelu annibyniaeth gwaith archwilio, ac mae cymryd camau o'r fath o fudd i'r cyhoedd. Ni ddylai'r rhai sy'n gyfrifol am wario arian cyhoeddus a rhoi cyfrif amdano benderfynu pwy sy'n eu harchwilio. Mae penodiadau annibynnol yn darparu diogelwch hanfodol fel y gall archwilwyr gyflawni eu rolau fel y nodir yn y *Cod Ymarfer Archwilio,* yn ddidrafferth a heb ddod o dan

ddylanwad y corff a archwilir. Heb y diogelwch a gynigir gan benodiadau annibynnol, byddai archwilwyr yn wynebu pwysau cynyddol i ymgymryd â gwaith penodol neu wrthod gwaith o'r fath, a llunio adroddiadau preifat - neu beidio â llunio adroddiadau o gwbwl - yn hytrach na llunio rhai cyhoeddus fel y gwnânt ar hyn o bryd.

2.33 Mae manteision eraill i gyrff a archwilir o'm rôl o ran gwneud penodiadau annibynnol. Mae'n golygu y gall cannoedd o gyrff ledled Cymru osgoi'r ymdrech a'r gost sylweddol o gynnal eu prosesau caffael a phenodi eu hunain. Gall cyrff gael sicrwydd fod safonau ansawdd gofynnol ar waith ac y caiff perfformiad archwilwyr ei reoleiddio a'i fonitro'n annibynnol. Mae cynigwyr yn osgoi costau tebyg y byddai'n rhaid iddynt eu hadennill fel arall gan y cyrff a archwilir. Mae swmp-brynu yn arwain at dendrau mwy manteisiol o safbwynt economaidd sydd, yn eu tro, yn helpu i gadw ffioedd yn is nag y byddent mewn marchnad dameidiog.

2.34 Fodd bynnag, gan gydnabod fy nyletswydd statudol i archwilio a phenodi archwilwyr, mae'r cysyniad o gynnwys cynrychiolwyr cyrff a archwilir i'm cynorthwyo gyda'r prosesau contractio yn apelio ataf. Byddwn yn croesawu barn ynghylch p'un a allai cynrychiolwyr cyrff a archwilir chwarae mwy o ran i'm cynorthwyo i ddethol y rhai rwyf yn contractio â hwy a sut y gallant wneud hynny[1].

Trefniadau'r Archwilydd Penodedig Unigol ar gyfer prif gyrff llywodraeth leol a'r trefniant Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

2.35 Mae'r trefniadau hyn[2] yn hyrwyddo parhad a chysondeb o ran dyfarniadau archwilio ar draws cyrff a archwilir. Maent yn hyrwyddo hyblygrwydd o ran y cyflenwad gwasanaethau archwilio ar draws cyrff llywodraeth leol, ac ar gyfer holl gyrff llywodraeth ganolog a'r GIG gan mi fi yw eu harchwilydd statudol. Gan fod pob un o'r prif gyrff llywodraeth leol bellach yn rhan o'r trefniant Archwilydd Penodedig Unigol, cyfeiriaf at yr Archwilydd Penodedig yn unig yng nghyd-destun llywodraeth leol.

Indemniad i archwilwyr ar yr amod nad ydynt wedi gweithredu'n esgeulus

2.36 Mae gweithio o dan gontract i mi, yn hytrach na gweithio'n annibynnol, yn helpu i leihau costau archwilio gan fod fy indemniad yn lleihau'r lefel gyffredinol o risg i archwilwyr (ar yr amod nad ydynt wedi gweithredu'n esgeulus) sy'n deillio o'r gwaith a wneir ar fy rhan. Mae'r pwyslais rwyf yn ei roi ar ansawdd y cyflenwad yn ystod y broses gontractio, y canllawiau rwyf yn eu rhoi i archwilwyr a'r camau a gymeraf i reoleiddio a monitro gwaith archwilio yn y sector cyhoeddus yn lleihau'r risg y bydd angen defnyddio'r indemniad.

Rheolaeth yr Archwilydd Cyffredinol dros ffioedd ac egwyddor dull prisio Swyddfa'r Post

2.37 Mae'r gwaith a wnaf i reoleiddio ffioedd yn sicrhau y bydd digon o adnoddau yn cael eu neilltuo i waith archwilio lleol archwilwyr i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau archwilio'n briodol. Gallaf herio ac, os oes angen, leihau cynigion ar gyfer ffioedd gormodol (neu gynyddu ffioedd os nad ydynt yn ddigon i dalu am y gwaith y mae angen ei wneud). Defnyddir yr un graddfeydd ffioedd ledled Cymru i godi tâl am waith tebyg, lle bo hynny'n berthnasol. Felly bydd cyrff mewn lleoliadau mwy anghysbell yn osgoi costau gormodol.

1 Gweler paragraff 2.64, yn nes ymlaen.

2 Mae'r trefniant Archwilydd Penodedig Unigol yn cwmpasu'r cyfrifoldebau a ymddiriedir yn yr archwilydd penodedig. Nid yw'n cynnwys gwaith asesu gwelliant mewn llywodraeth leol, gan mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am y gwaith archwilio perfformiad hwnnw.

Safon uchel gwaith archwilio a chydberthnasau gwaith archwilwyr

2.38 Mae gwaith archwilio o safon uchel yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a dwyn y llywodraeth i gyfrif. Mae archwiliadau yn y sector cyhoeddus yn arbenigol iawn, gan adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol, y fframwaith llywodraethu a'r fframwaith rheoli ariannol cymhleth y mae'r cyrff a archwilir yn gweithredu ynddynt, a natur yr archwiliad ei hun. Rhaid i archwilwyr allu gweithio'n effeithiol yn yr amgylchedd hwn, ac ymdopi'n effeithiol bob tro y bydd sefyllfa eithafol yn codi. Cydnabyddir bod y gwaith archwilio ariannol a wneir ar hyn o bryd fel rhan o'm cyfundrefn yn gryfder mawr. Mae'n bodloni amserlenni sy'n fwyfwy uchelgeisiol a safonau heriol, a hoffwn weld hyn yn parhau.

2.39 Mae adroddiadau astudiaethau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru o safon uchel yn gyson. Hyd yn oed pan fo adroddiadau'n feirniadol iawn o sefydliadau penodol, mae eu huwch reolwyr yn aml wedi rhoi adborth cadarnhaol am y ffordd y cafodd y gwaith sensitif ac uchel ei broffil hwn ei gynnal a'i effaith. Rwyf yn awyddus i'r llwyddiant hwn barhau hefyd, gan ymestyn y sylfaen gyflenwi ar yr un pryd i gyflwyno sgiliau a thechnegau newydd er mwyn gwella ansawdd ein gwaith ymhellach.

2.40 Mae gwaith archwilio llwyddiannus hefyd yn dibynnu ar gydberthnasau gwaith da a phroffesiynol gan fuddsoddi amser ac ymdrech i ddeall anghenion busnes y corff a archwilir. Mae cydberthnasau gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau â'r cyrff a archwilir yn gadarnhaol ar y cyfan,ond nid ydynt yn rhy agos at ei gilydd. Mae fy nghyflenwyr presennol yn pwysleisio'r boddhad a'r profiadau y maent yn eu cael o weithio yn y sector cyhoeddus. Croesawant hefyd ein prosesau effeithiol ar gyfer gosod a monitro contractau a'r cydberthnasau gwaith da sydd ganddynt â'm staff. Mae'r cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gânt gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r cwmnïau sydd wedi'u contractio i mi.

Prosesau caffael effeithiol sy'n canolbwyntio ar anghenion Cymru, cystadleuaeth, y cydbwysedd cywir rhwng ansawdd a phris, gwaith partneriaeth a chynaliadwyedd

2.41 Mae angen i sefydliadau sy'n awyddus i weithio i mi sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol a thrylwyr am sector cyhoeddus Cymru a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol iddo. Rhaid iddynt ddeall yr heriau sy'n codi yn y maes hwn, a rhaid iddynt allu cynnig sgiliau ac atebion priodol. Mae angen gwasanaeth sy'n ymateb yn effeithiol i ffactorau lleol penodol ar gyrff a archwilir, yn enwedig defnyddio'r iaith Gymraeg a nifer y lleoliadau anghysbell y mae angen mynd iddynt.

2.42 Hoffwn gynnal cyflenwad bywiog, hygyrch a fforddiadwy o archwilwyr, fel bod dewis da o archwilwyr ar gael waeth ble fo corff a archwilir wedi'i leoli. Mae hyn yn fy helpu i drefnu bod gwaith archwilio ariannol yn cael ei gylchdroi rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r cwmnïau, yn enwedig os bydd angen cylchdroi archwilwyr yn annisgwyl. Hefyd, hoffwn ddatblygu cyflenwyr yng Nghymru er mwyn osgoi gorddibynnu ar un neu ddau gyflenwr a'r risgiau dilynol y byddant yn dominyddu'r farchnad neu y caiff gwasanaethau eu colli os bydd unrhyw un o'r prif gyflenwyr yn lleihau eu gweithrediadau yma, neu'n rhoi'r gorau i weithredu yma, yn gyfan gwbl.

2.43 Byddaf yn parhau i geisio contractio gyda sefydliadau sy'n dangos y parodrwydd a'r gallu i fuddsoddi mewn gwaith archwilio sector cyhoeddus yng Nghymru a gweithio mewn partneriaeth effeithiol gyda mi a'm staff. Dylai eu harloesedd technegol a'u gwaith i ddatblygu technolegau arloesol fy helpu i gynnal safonau uchel ym mhob rhan o

sector cyhoeddus Cymru. Hoffwn fanteisio ar adnoddau technegol helaeth sefydliadau, a'r wybodaeth ehangach y maent yn ei meithrin drwy eu rhwydweithiau byd-eang a'u gwaith yn y sector preifat, er budd cyrff cyhoeddus yma.

2.44 Hoffwn gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei dyletswydd i hyrwyddo gwaith datblygu cynaliadwy, a gwaith caffael cyhoeddus yw un o'r adnoddau mwyaf grymus i'n helpu yn hyn o beth.

2.45 Byddaf yn ceisio sicrhau'r safon uchel hon drwy gymhwyso'r meini prawf dethol canlynol, gan sicrhau bod costau archwilio yn aros mor isel â phosibl.

Meysydd y byddwn yn croesawu sylwadau arnynt yn benodol

2.46 Fy mwriad yw cynnal safon uchel o waith archwilio gan sefydlu:

- marchnad fwy cystadleuol ac agored i gyflenwi gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig, a ategir gan drefniadau caffael mwy hyblyg;
- mwy o dryloywder ynghylch sut y caiff cyflenwyr eu dethol; a
- threfniadau cadarnach, sydd eto i gyd yn fforddiadwy, ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

Ffigur 4: Meini prawf dethol arfaethedig ar gyfer tendrau (heb fod mewn trefn)

Meini prawf dethol arfaethedig ar gyfer tendrau
• Dealltwriaeth o natur a dibenion Archwilydd Cyffredinol Cymru a chyrff a archwilir yng Nghymru, a gallu i fynd i'r afael â'r materion sy'n eu hwynebu. • Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yr Arweinwyr Ymgysylltu arfaethedig ac aelodau'r tîm archwilio (ynghyd â chyfansoddiad y tîm). • Sgiliau, adnoddau a thechnegau arbenigol. • Ymrwymiad i waith archwilio yn y sector cyhoeddus a buddsoddi ynddo (er enghraifft, drwy ddarparu timau dynodedig a chanolfan o arbenigedd a chymorth technegol). • Y gallu i fynd i'r afael â materion ieithyddol a gweithio ledled Cymru gyfan. • Gallu ac adnoddau technegol a datblygiadol eraill, gan gynnwys arloesedd. • Cydberthnasau gwaith a chyfathrebu, gan gynnwys ymateb i ohebiaeth gan etholwyr lleol, a chynrychiolwyr lleol/ cenedlaethol. • Trefniadau mewnol effeithiol i sicrhau a rheoli ansawdd. • Mynd i'r afael yn effeithiol â materion amgylcheddol. • Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, gan gynnwys deddfwriaeth am yr iaith Gymraeg ac yn enwedig dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodwyd. • Pris.

2.47 Dylai newidiadau i lwythi gwaith, y ffynonellau cyflenwi a'r dulliau caffael a mwy o gyfraniad gan gynrychiolwyr y cyrff a archwilir oll greu buddiannau. Byddwn yn croesawu'n arbennig eich sylwadau ar y materion canlynol.

(1) Cydbwysedd y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyflenwyr eraill

2.48 Er y credaf fod lefel gyffredinol y gwaith archwilio ariannol y nodwyd y gall cwmnïau eraill gynnig amdano yn briodol ar y cyfan, rwyf yn barod i ystyried sut y caiff y cwmnïau cyfrifyddu eu defnyddio i wneud y gwaith hwn ar draws y sectorau llywodraeth leol, y GIG a llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd ceir gogwydd tuag at lywodraeth leol. Bydd ymdrechion gennyf i gynnal lluosogrwydd y cyflenwad fel y gallaf ddefnyddio cyfuniad effeithiol o adnoddau i gyflawni gwaith archwilio ariannol ym mhob sector o fudd i gyrff cyhoeddus.

2.49 O gofio'r galwadau presennol a'r disgwyliadau newydd fydd ar archwilwyr yn y dyfodol, hoffwn sicrhau sgiliau a gallu ac adnoddau ychwanegol o ffynonellau amrywiol er mwyn helpu i gyflawni gwaith archwilio perfformiad. Dylai sicrhau profiad a sgiliau ychwanegol gynyddu'r gallu a'r adnoddau fydd ar gael ym maes archwilio yn y dyfodol, cryfhau'r gronfa arbenigedd y gallaf ei defnyddio, a helpu gyda'r gwaith o lunio adroddiadau amserol.

2.50 Gan y bydd fy nghontractau newydd yn rhedeg ymhell tuag at ddiwedd y degawd, bydd angen iddynt ymdopi ag ansicrwydd posibl. Bydd sylfaen gyflenwi ehangach yn golygu y byddaf mewn sefyllfa well i ymdopi â newidiadau mewn llwythi gwaith ac anghenion o ran sgiliau dros amser.

(2) Agor mwy o sector y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

2.51 Hyd nes i GIG Cymru gael ei ad-drefnu ddwy flynedd yn ôl, cwmnïau cyfrifyddu oedd yn gwneud tua 30 y cant o'r gwaith archwilio. Ar hyn o bryd, dim ond archwiliad yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans sy'n cael ei gynnal gan gwmni. Cynigiaf y dylid ailagor marchnad y GIG yng Nghymru i ffynonellau cyflenwi y tu allan i Swyddfa Archwilio Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu yn achos cyrff mawr iawn, fel timau archwilio ar y cyd.

(3) Agor mwy o'r sector Llywodraeth Ganolog

2.52 Mae deddfwriaeth berthnasol ar gyfer cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cysylltiedig, ac ar gyfer cyrff llywodraethol annibynnol a ddatganolwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i mi archwilio eu cyfrifon blynyddol. Fodd bynnag, gan y gallaf ofyn am gymorth gan eraill, gallaf drefnu bod contractwyr yn fy helpu i gyflawni'r archwiliadau ariannol hyn. Rwyf wrthi'n ystyried p'un a ddylwn wneud hyn i raddau mwy.

(4) Dod o hyd i gyflenwyr newydd

2.53 Mae pob un o'r prif gyrff archwilio yn fawr ac yn gymhleth ac mae'n ofynnol bod gan eu harchwilydd wybodaeth gadarn am y sector cyhoeddus yn gyffredinol, y sector y mae'r corff yn perthyn iddo a'r corff yn benodol. Mae'r gofynion hyn yn tueddu i weithredu fel lefelau mynediad uchel ar gyfer contractwyr newydd o ran gwybodaeth ac arbenigedd technegol. Er ei bod yn hanfodol cynnal ansawdd, gall y gofynion mynediad hyn atal rhai cyflenwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad.

2.54 Ceisiaf oresgyn y rhwystrau hyn, ac ymestyn y sylfaen gyflenwi er mwyn cynyddu gallu ac adnoddau archwilio, cynorthwyo cyflenwadau cystadleuol a chadw prisiau mor isel â phosibl yn y ffyrdd canlynol:

- Archwiliaf ffynonellau cyflenwi ychwanegol. Yn achos gwaith archwilio ariannol, gallai hyn gynnwys sgiliau arbenigol, neu gyflenwadau ar gyfer gwaith ar bynciau penodol megis ardystio hawliadau grant arbennig. Yn achos gwaith archwilio perfformiad, gallai hyn gynnwys gwasanaethau fel sgiliau arbenigol, gwaith astudio, dadansoddi, arolygon neu waith cymharu rhyngwladol.
- Ceisiaf annog cynigion gan gyflenwyr newydd, gan gynnwys cyflenwyr bach a rhanbarthol, a fyddai'n gweithio gyda chymorth a goruchwyliaeth gan staff Swyddfa Archwilio Cymru neu gyflenwyr eraill sy'n fwy o faint ac yn fwy profiadol.
- Cynigiaf hefyd gymorth technegol priodol i gyflenwyr newydd, yn unol â'r disgwyliad y bydd cyrff proffesiynol, a chyrff archwilio cyhoeddus a rheoleiddwyr, yn rhannu eu gwybodaeth arbenigol am y sector cyhoeddus.

2.55 Er bod gan fy nghontractwyr presennol lawer o allu ac adnoddau o ran gwaith archwilio gwerth am arian, hoffwn allu defnyddio ffynonellau ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Nid yw'n ymarferol nac yn ddarbodus i Swyddfa Archwilio Cymru gyflogi arbenigwyr ym mhob pwnc yn barhaol a cheisiaf brynu cyflenwadau gan ymgynghoriaethau, academia, melinau trafod a'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag arbenigwyr unigol. Bydd cyflenwyr newydd yn helpu i sicrhau parhad gwasanaethau os bydd unrhyw gyflenwyr presennol yn penderfynu rhoi'r gorau i wneud y math hwn o waith o ganlyniad i'r newidiadau i'r farchnad archwilio yn Lloegr. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai contractwyr a chyflenwyr bob amser yn cael eu defnyddio gan roi ystyriaeth ddyledus i'r holl faterion moesegol ac mewn ffyrdd nad ydynt yn amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd fy ngwaith archwilio.

(5) Trefniadau newydd ar gyfer prynu gwaith archwilio

2.56 Ar hyn o bryd, prynaf y rhan fwyaf o'r gwaith a roddir ar gontract allanol drwy ddefnyddio contractau cyflenwi sefydledig neu drwy hurio archwilwyr unigol am gyfnod byr fel unigolion cyswllt. O bryd i'w gilydd, defnyddir ymgynghoriaeth ar gyfer darn penodol o waith. Hyd yma, prin rwyf wedi defnyddio secondiadau.

2.57 Byddaf yn parhau i ddefnyddio **contractau cyflenwi archwiliadau** i roi sicrwydd y bydd digon o waith yn cael ei roi dros gyfnod penodedig er mwyn annog contractwyr i fuddsoddi yn eu seilwaith proffesiynol a gwneud cymorth technegol arbenigol yn hyfyw yn ariannol. Fodd bynnag, nid contractau o'r fath fydd fy unig ddull caffael. Byddaf hefyd yn ystyried **cytundebau fframwaith** ar wahân i brynu gwaith prosiect penodol, staff asiantaeth ac arbenigwyr. Hoffwn hefyd weld mwy o staff yn cael eu secondio i Swyddfa Archwilio Cymru a chanddi. Byddaf hefyd yn cynnal **tendrau penodol achlysurol**, neu ymarferion caffael bach, ac yn defnyddio trefniadau eraill sydd eisoes ar waith yn y sector cyhoeddus lle y bo'n briodol, o bryd i'w gilydd, i brynu darnau penodol o waith, neu sicrhau sgiliau penodol.

2.58 Felly, ar y cyfan, bydd fy nhrefniadau prynu yn cynnwys tri maes cyffredinol.

Ffigur 5: Crynodeb o'r trefniadau prynu arfaethedig



- **Contractau cyflenwi archwiliadau - ymrwymiad i brynu cwmpas £ penodedig o gyflenwad blynyddol.** Mae hyn yn cynnwys archwiliadau ariannol o gyfrifon blynyddol yn holl feysydd y sector cyhoeddus yng Nghymru; ardystio hawliadau a ffurflenni grant; a'r agweddau ariannol ar waith y Mesur Llywodraeth Leol.
- **Cytundebau fframwaith - ymrwymiad i brynu cwmpas £ penodedig o waith archwilio cyffredinol arall (archwiliadau ariannol, astudiaethau gwerth am arian ac astudiaethau cenedlaethol)**. Mae hyn yn cynnwys cynnal astudiaethau arferol a gwaith Gwerth am Arian; cyflenwi archwilwyr ychwanegol i helpu Swyddfa Archwilio Cymru i reoli ei llwyth gwaith ar ei chyfnodau prysuraf; cymorth arall i'm timau archwilio perfformiad yn y sectorau llywodraeth leol ac iechyd ac ar gyfer fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian. Gallai gwaith o'r fath gynnwys, er enghraifft, arolygon, dadansoddi data a gwaith cymharu rhyngwladol.
- **Tendrau penodol achlysurol - gwerth £ amhenodol o brosiectau ad hoc ac arbenigol.** Mae hyn yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan arbenigwyr i brosiectau archwilio perfformiad achlysurol a fyddai'n cael eu harwain gan uwch reolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Fforddiadwyedd gwaith archwilio

2.59 Dylai Swyddfa Archwilio Cymru arwain yr ymdrech i wella effeithlonrwydd yn y gwasanaeth cyhoeddus drwy esiampl. Gwnaethom lwyddo i arbed ymhell dros £1 filiwn yn erbyn gwariant arfaethedig drwy leihau costau a gwella effeithlonrwydd yn 2010-11. Gwnaed arbedion mewn amrywiaeth eang iawn o feysydd gan gynnwys hyfforddiant, cyhoeddi, gwariant gohiriedig ar TGCh, a diswyddiadau gwirfoddol.

2.60 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi sicrhau gostyngiadau blynyddol sylweddol yn y ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, drwy wella effeithlonrwydd, drwy wneud arbedion cost a thrwy weithio mewn modd mwy cymesur. Rhwng 2009 a 2011, bu lleihad, mewn termau arian parod, o £1.27 miliwn neu 8.0 y cant mewn ffioedd ar gyfer archwiliadau llywodraeth leol, y GIG a llywodraeth ganolog, ac ar gyfer gwaith grant llywodraeth leol. Ar sail gronnol rhwng 2009-10 a 2012-13, byddaf wedi llywio lleihad o bron 25 y cant mewn termau real yng nghyfanswm ein gwariant blynyddol.

2.61 Bob blwyddyn, rwyf yn adolygu, yn pennu ac yn cyhoeddi graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith archwilio cyrff llywodraeth leol, sydd hefyd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o archwiliadau yng nghyrff y GIG. Yn sail i'm graddfeydd ffioedd mae dull cynllunio archwiliadau sy'n seiliedig ar sero ac fe'u meincnodir yn erbyn y ffioedd a godir gan asiantaethau archwilio eraill y DU, lle bo hynny'n briodol.

2.62 Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd o gael lefelau uchel o sicrwydd cyhoeddus drwy ddibynnu ar waith adolygu cadarn gan eraill. Llynedd, ar y cyd â chyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru, gwnaethom egluro sut mae'r cydweithredu sy'n digwydd rhyngom yn gwella a sut y gellir ei ddefnyddio er y budd gorau yn y dyfodol.[3]

(7) Cynnwys cynrychiolwyr cyrff a archwilir i raddau mwy yn y prosesau caffael

2.63 Yn statudol, fi yw archwilydd cyrff y GIG a llywodraeth ganolog, ac mae'n ofynnol i mi ymgynghori â chyrff llywodraeth leol cyn gwneud unrhyw benodiadau. Wrth benodi, rwyf hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw broblemau hysbys a allai atal Arweinydd Ymgysylltu newydd rhag ymgymryd â gwaith archwilio ar fy rhan (neu ar ran yr Archwilydd Penodedig mewn llywodraeth leol).

2.64 Heb beryglu fy annibyniaeth, rwyf yn ystyried sut i gynnwys cyrff cynrychioliadol, megis Conffederasiwn GIG Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn y broses o ddethol y sefydliadau rwyf yn contractio â hwy.

3 *Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid.* Papur ar arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru a baratowyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhan 3 - Trefniadau newydd posibl ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned

Trefniadau presennol

3.65 Mae cyrff y dynodaf eu bod yn gyrff 'bach' yn destun trefniadau archwilio a gaiff eu teilwra ar eu cyfer, gan ddefnyddio barn archwilwyr, o dan fy *Nghod Ymarfer Archwilio*. Mae cynghorau tref a chymuned yn destun archwiliadau 'sicrwydd cyfyngedig'. Mae'r archwiliadau sicrwydd cyfyngedig hyn yn rhoi lefel briodol o sicrwydd archwilio gyda gofynion archwilio allanol a chostau cymesur.

3.66 Mae effeithiolrwydd y trefniant hwn yn ddibynnol ar y ffaith bod gan y cynghorau eu hunain drefniadau digonol ac effeithiol i hunanardystio, gwneud gwaith archwilio mewnol a llywodraethu ac fel rhan o'r trefniant, rhaid paratoi datganiad blynyddol ar sail cyfrifon y cyngor. Mae tair haen i'r trefniant hwn. Mae'r haen gyntaf yn cynnwys adolygiad gan archwilwyr o'r datganiad blynyddol ar ei ben ei hun. Ar yr ail haen mae archwilwyr hefyd yn profi'n fanylach sampl pump y cant o'r datganiadau blynyddol ac unrhyw ddatganiadau lle daw gwybodaeth at sylw'r archwilydd bod gan y cyngor dan sylw broblem. Ar y drydedd haen, mae cynghorau sy'n gwario dros £250,000 yn destun profion manylach yn awtomatig.

Pam fy mod yn ystyried newid y trefniadau hyn ar gyfer 2013-14 ac wedi hynny

3.67 Er ei fod yn fforddiadwy, mae dau fater pwysig yr hoffwn eu hailystyried mewn perthynas â'r trefniant 'sicrwydd cyfyngedig' presennol. Yn gyntaf, mae archwilwyr, gwaetha'r modd, wedi gorfod rhoi gwybod am sawl achos difrifol o afreoleidd-dra mewn cynghorau tref a chymuned dros y blynyddoedd diwethaf. Er ei bod yn bwysig cydnabod mai cyfran fach o'r holl gynghorau a gynrychiolir gan nifer yr achosion o afreoleidd-dra a gofnodir, mae'r sefyllfa hon yn peri pryder mawr. Yn ail, mae nifer annerbyniol o uchel o gynghorau yn methu â sicrhau eu bod yn cwblhau eu datganiadau ac yn eu hanfon at yr archwilydd yn brydlon neu'n methu ag ymateb yn briodol i ymholiadau archwilio.

3.68 Cydnabyddaf y gwaith da a wneir gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i hyrwyddo safonau uchel o ran llywodraethu. Fodd bynnag, rhaid i mi fod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith ar draws y sector i gyd ac - er bod rhywfaint o gynnydd i'w weld - nid wyf yn argyhoeddiedig, ar y cyfan, fod hynny'n wir Ymhlith yr enghreifftiau o ddigwyddiadau a phroblemau sydd wedi dylanwadu ar fy marn mae'r canlynol:

- Adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr penodedig bod cynghorau wedi methu â pharatoi eu cyfrifon blynyddol a'u cyflwyno i'w harchwilio'n brydlon. Dengys y tabl sy'n dilyn isod i 19 y cant o gynghorau fethu'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau eu harchwiliad yn 2009-10, sef 31 Rhagfyr 2010[4]. Mewn rhai achosion nid oedd eu Haelodau'n ymwybodol o'r sefyllfa. Mae hyn yn gwneud i mi bryderu nad yw Aelodau yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae grŵp mawr o rhwng 20 a 30 o gynghorau sy'n hwyr iawn.
- Lluniwyd adroddiadau budd y cyhoedd mewn rhai achosion gan archwilwyr. Yn achos dwy enghraifft ddiweddar, cofnododd yr archwilydd penodedig fod methiannau llywodraethu sylweddol wedi arwain at symiau sylweddol o wariant diangen.

4 Roedd y gyfradd nad oeddent wedi cydymffurfio yn debyg iawn ar gyfer archwiliad 2010-11 (17 y cant).

- Mewn rhai achosion eraill mae clercod a swyddogion eraill wedi twyllo'r cynghorau y maent yn eu gwasanaethu. Mae rhai o'r achosion hyn yn faterion cofnod cyhoeddus lle mae clercod wedi'u collfarnu am ddwyn a ffugio miloedd o bunnoedd o arian cyhoeddus.

Ffigur 6: Amseroldeb archwiliadau cyrff bach

Nifer (a chanran) y cynghorau tref a chymuned nad oedd eu harchwiliad yn 2009-10 wedi'i gwblhau ar:	
31 Rhagfyr 2010	139 (19%)
28 Chwefror 2011	70 (9%)
30 Ebrill 2011	30 (4%)
30 Mehefin 2011	27 (4%)
31 Awst 2011	20 (3%)
30 Medi 2011	20 (3%)
31 Rhagfyr 2011	7 (1%)

3.69 Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i Gymru.[5] Mae'r risgiau sydd ynghlwm wrth werth gwael am arian, camreoli ariannol, neu dwyll hefyd yn debygol o waethygu dros amser os bydd cynghorau tref a chymuned yn cael mwy o bwerau.

Gwella gwaith llywodraethu

3.70 Credaf fod achos cryf dros wella gwaith llywodraethu ym mhob rhan o'r sector. Fel rhan o hynny, bydd angen trefniant archwilio cadarnach sydd eto i gyd yn gymesur. Rwyf wedi ystyried a fyddai modd mabwysiadu'r model 'elusennau'[6]. Rwyf hefyd wedi ystyried a fyddai modd galw ar gynghorau unedol i gymryd rhan yn y gwaith o archwilio cynghorau tref a chymuned yn eu hardal.

3.71 Mae'r elfen o orfodaeth sydd i'w gweld yn nulliau cynghorau cymuned o wneud incwm drwy drethiant, yr angen am safonau uchel o ran atebolrwydd, a'r 'egwyddorion archwilio cyhoeddus' i gyd yr un mor berthnasol i gynghorau tref a chymuned. Felly nid yw eithrio cynghorau tref a chymuned rhag cael eu harchwilio'n annibynnol yn debygol o arwain at waith llywodraethu da ganddynt. Er bod y rhan fwyaf o elusennau'n gweithredu yn ddidrafferth, dengys gwaith y Comisiwn Elusennau bod chwech y cant o'r holl elusennau heb gyflwyno eu cyfrifon diweddaraf na'u datganiad blynyddol i'r Comisiwn Elusennau, a hyd yn oed lle cafodd y rhain eu cyflwyno, erys amseroldeb yn broblem waeth beth fo maint yr elusennau. Roedd cynifer ag un o bob pum elusen ag incwm blynyddol o fwy na £1 filiwn wedi methu eu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Awgryma'r dystiolaeth hon na fyddai'r model elusennau yn gwella amseroldeb o ran archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus llai.

3.72 Rhagwelaf y bydd nifer o anawsterau yn codi os bydd awdurdodau unedol yn contractio â mi i archwilio'r cyrff bach yn eu hardaloedd. Mae materion moesegol y byddai angen mynd i'r afael â hwy, ac nid oes gan gynghorau yr holl bwerau angenrheidiol i reoleiddio cynghorau tref a chymuned. Byddai angen sicrhau bod digon o adnoddau addas ar gael i ymgymryd â'r gwaith, ymateb i bryderon a chwynion y cyhoedd, a gwneud gwaith ymchwilio. Serch hynny, byddai'n ddiddorol cael sylwadau gan unrhyw gynghorau sydd â diddordeb.

5 Adroddiad y Comisiwn Archwilio, 2010 *Auditing the Accounts – Parish Councils*

6 Mae Deddf Elusennau 1993 yn eithrio cyfrifon yr elusennau lleiaf (incwm o dan £25,000) o brosesau craffu allanol. Gall elusennau canolig gael archwiliad annibynnol. Dim ond i'r elusennau mwyaf (incwm o fwy na £250,000 ac asedau gwerth mwy na £3.26 miliwn, neu incwm o fwy na £500,000) y mae archwiliadau yn orfodol.

Cynigion ar gyfer dull newydd o weithredu yng Nghymru

3.73 Credaf y byddai trefniadau eraill yn fwy effeithiol a phriodol i Gymru er mwyn hyrwyddo gwaith llywodraethu gwell yn yr holl gynghorau tref a chymuned.

Archwiliadau dwy haen

3.74 Yn unol â hynny, rwyf yn ymgynghori ar gontractio gan newid o'r trefniadau tair haen presennol i archwiliadau dwy haen uwch sydd eto i gyd yn gymesur ac yn gadarnach.

- Yr haen gyntaf - bydd pob cyngor yn destun archwiliad lle caiff y datganiad blynyddol ei brofi yn erbyn elfennau o'r cyfrifon. Byddai cynghorau yn paratoi ac yn cyflwyno datganiad blynyddol ac yn rhoi tystiolaeth i'r archwilydd i ddangos y cydymffurfir â gofynion llywodraethu allweddol. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei ymestyn lle bo datganiadau yn awgrymu bod gan gorff broblem neu lle daw gwybodaeth o'r fath at sylw'r archwilydd.
- Yr ail haen - waeth beth fo'u maint, byddai sampl o gynghorau yn destun archwiliadau manylach. Byddai cwmpas yr archwiliad yn ceisio rhoi sicrwydd nad yw'r math o fethiannau a nodwyd yn flaenorol ym mharagraff 69 yn digwydd yn y cyngor sy'n cael ei archwilio. Byddai cynghorau yn cael archwiliad ail haen o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Fforddiadwyedd

3.75 Er bod fforddiadwyedd yn ffactor pwysig i bob corff a archwilir, mae'n arbennig o bwysig i gynghorau tref a chymuned bach. Mae gan nifer fawr o'r rhain gyllidebau bach iawn. Ar hyn o bryd mae ffioedd archwilio'n seiliedig ar raddfa benodedig sy'n gysylltiedig ag incwm a gwariant y cyrff. Mae'r egwyddor hirsefydlog hon yn glir ac rwyf am ei chadw.

3.76 Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, lluniwyd graddfeydd ffioedd penodedig am ddau gyfnod o bum mlynedd. Yn 2007, cyflwynwyd cyn lleied o godiadau â phosibl, ac nid yw ffioedd y cynghorau lleiaf (y rhai ag incwm neu wariant blynyddol o dan £5,000) wedi cynyddu ers 2002.

3.77 Mae fy ymgynghoriad presennol ar ffioedd llywodraeth leol (ar gyfer 2012-13[7]) yn cadw'r 'archwiliad am ddim' ar gyfer y cynghorau lleiaf. Caiff y cynnydd yn ffioedd y rhan fwyaf o'r cynghorau eraill (h.y. y rhai ag incwm/gwariant o dan £200,000) ei gyfyngu i rhwng £10 a £25 yn unig.

3.78 Er na ellir pennu cyfraddau terfynol ar gyfer y dyfodol hyd nes bod fy nghontractau newydd wedi'u trefnu, dengys gwaith modelu y bydd dull archwilio dwy haen yn arwain at gynnydd llawer llai na phe byddai cyfraddau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant dros y degawd diwethaf. Felly bydd ffioedd yn gymesur ac yn fforddiadwy o hyd.

7 Graddfeydd ffioedd archwilio ac arolygu llywodraeth leol 2012-13. Fy llythyr ymgynghori, dyddiedig 20 Hydref 2011.

Rhan 4 - Cwestiynau i randdeiliaid

4.79 I grynhoi, rwyf o'r farn y dylai Swyddfa Archwilio Cymru barhau yn ei rôl fel prif gyflenwr gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru ond dylai cwmnïau cyfrifyddu a chyflenwyr newydd eraill chwarae rôl sylweddol hefyd. Bwriadaf sicrhau y bydd gwasanaethau archwilio yn y dyfodol, a'r trefniadau i'w darparu, yn parhau i gyflwyno'r buddiannau mwyaf posibl i bobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac yn talu amdanynt.

4.80 Rwyf yn awyddus i gael adborth gennych ar y cynigion a nodir gennyf yn y strategaeth ddrafft hon a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi eich barn i mi erbyn **dydd Gwener 13 Ebrill 2012**. Gallwch wneud hynny yn y ffyrdd canlynol:

- Gallwch argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb ddilynol a'i dychwelyd drwy'r post i:

  Ymgynghoriad
  Swyddfa Breifat yr Archwilydd Cyffredinol
  Swyddfa Archwilio Cymru
  24 Heol y Gadeirlan
  Caerdydd
  CF11 9LJ

- Anfonwch eich sylwadau atom mewn e-bost i waoappointments@wao.gov.uk
- Ewch i'n gwefan, www.wao.gov.uk/cymraeg/reportsandpublications/249.asp a llwythwch i lawr ffurflen ymateb i'w dychwelyd drwy e-bost i'r cyfeiriad uchod.

4.81 Yn benodol, a fyddech cystal ag ateb y cwestiynau canlynol:

1 Beth yw eich barn ar fy nghynigion i sefydlu marchnad fwy cystadleuol ac agored i gyflenwi gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig, a ategir gan drefniadau caffael mwy hyblyg?

2 A yw'n ddymunol bod cynrychiolwyr cyrff a archwilir yn chwarae mwy o ran yn y prosesau caffael?

3 A ydych o'r farn bod fy nghynigion yn debygol o gefnogi trefniadau cadarnach, sydd eto i gyd yn fforddiadwy, ar gyfer cynghorau tref a chymuned?

Ffurflen ymateb

Anfonwch eich ymateb i'r cyfeiriad isod erbyn **dydd Gwener 13 Ebrill 2012.** Nodwch yn glir p'un a ydych yn cynrychioli un sefydliad neu gymdeithas sy'n cynnwys llawer a nodwch ym mha rinwedd rydych yn ymateb.

Eich enw a theitl swydd (gan gynnwys ym mha rinwedd rydych yn ymateb)	
Enw eich sefydliad	
Eich cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn	
Beth yw eich barn ar fy nghynigion i sefydlu marchnad fwy cystadleuol ac agored i gyflenwi gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig, a ategir gan drefniadau caffael mwy hyblyg?	
A yw'n ddymunol bod cynrychiolwyr cyrff a archwilir yn chwarae mwy o ran yn y prosesau caffael?	
A ydych o'r farn bod fy nghynigion yn debygol o gefnogi trefniadau cadarnach, sydd eto i gyd yn fforddiadwy, ar gyfer cynghorau tref a chymuned.	

Dychwelwch i:
Ymgynghoriad, Swyddfa Breifat yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Cyhoeddi ymatebion - cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi, neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol.

Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd a anfonir yn awtomatig gan eich system TG ei ystyried yn rhwymol ar yr Archwilydd Cyffredinol ar ei ben ei hun.

Caiff data personol ei brosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Os caiff data o'r fath ei gynnwys mewn cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 yn yr achosion penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu y caiff gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus ei datgelu ond y caiff enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd eu cadw'n gyfrinachol.

Atodiad 1 - Fy ngwaith fel Archwilydd Cyffredinol

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae gennyf ddyletswyddau statudol i:

- archwilio cyfrifon Comisiwn y Cynulliad; Cronfa Gyfunol Cymru; Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cysylltiedig - gan gynnwys holl gyrff GIG Cymru;
- penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r heddlu, yr ymddiriedolaeth prawf, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned) ar ôl ymgynghori â hwy;
- trefnu bod hawliadau grant a ffurflenni eraill yn cael eu hardystio os bydd corff perthnasol yn gofyn i mi wneud hynny;
- cynnal a chyhoeddi rhai astudiaethau penodol o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru;
- cynnal archwiliadau o gynlluniau gwella ac asesiadau o welliant yn holl awdurdodau gwella Cymru (h.y.cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub); a
- chyflawni swyddogaethau penodol eraill, gan gynnwys arolygiadau o dwyll budd-daliadau; a rheoli Cronfa Gyfunol Cymru.

Gallaf ddewis gwneud pethau eraill hefyd. Mae gennyf bwerau i wneud y canlynol:

- cynnal a chyhoeddi archwiliadau ac astudiaethau ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwneud argymhellion ar gyfer gwella;
- cynnal arolygiad o awdurdod gwella yng Nghymru os nad yw wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Mesur 2009) - bydd hyn yn ddyletswydd arnaf os caf gyfarwyddyd i wneud hynny gan Weinidogion Cymru;
- darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i gyrff cyhoeddus, cyrff cyfrifyddu ac archwilwyr cymwys; a
- chynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll.